# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 12 MAI 2020 50c


## CYHOEDDI YR ANGOR

Y mae'r Golygydd yn benderfynol o gyhoeddi *Yr Angor* gan ei fod ef yn ymwybodol fod y papur bro hwn yn unigryw, yr unig un trwy Loegr i gyd, ac yn esiampl i bapurau bro Cymru – llawer ohonynt sydd yn cau lawr am y tri mis nesaf. Ni ddigwydd hynny, a hynny yn bennaf oherwydd tîm Yr Angor, Golygydd penderfynol, a chydweithrediad y cysodydd, Aeron Jones. Ef fydd yn postio *Yr Angor* i chwi am y misoedd nesaf.

**Rhifyn Olaf Cyfrol 41**

**Dyma rifyn olaf Cyfrol 41 a'r tro nesaf cawn Gyfrol 42.**



Coeden Magnolia – arwydd o'r Gwanwyn

## CINIO GŴYL DEWI 2020



*Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cymry Lerpwl ar y cyd gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel yng Nghlwb Golff Woolton.*
*Yn y llun gwelir Nan Hughes Parry, Meinwen Rees, Elfyn Llwyd (y Gŵr Gwadd) a'r Dr D. Ben Rees*




## TALIADAU I'R TRYSORYDD

*Pan ddaw rhifyn Cyfrol 42, Rhif 1, Mehefin i'ch dwylo byddwch yn sylweddoli fod yr amser wedi dod i ystyried anfon o leiaf £11 am Yr Angor trwy'r post. Gwerthfawrogir y rhai sydd yn cyfrannu yn haelionus tu hwnt. Dyna pam, fod rheidrwydd ar y Golygydd a'i dîm i gydnabod hynny trwy ofalu, hyd yn oed mewn creisis fod Yr Angor yn ymddangos. Diolch o galon.*

# Golygyddol CORONAFEIRWS gan D. Ben Rees

Yr ydym mewn argyfwng byd eang a theimlaf reidrwydd gweld rhifyn o'r *Angor* yn eich dwylo ar ddiwedd blwyddyn arall yn hanes y papur bro. Bydd hi'n anodd cael y rhifyn hwn i'ch dwylo ond yr wyf fel Golygydd yn benderfynol o wneud hynny, ond sylweddolaf y gall hi ddod yn stop arnom yn ystod haf eleni. Dibynna'r cyfan ar ba mor hir y cawn ein caethiwo yn ein cartrefi, yn arbennig ni sydd dros oedran yr addewid.

Cred Boris Johnson y bydd y cyfan drosodd mewn tri mis, sef i ddiwedd mis Mai, tra y cred eraill y cymer hi hyd fis Medi a byddai hynny yn golygu gohirio yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Eisioes gohiriwyd y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd a'r Gemau Olympaidd yn Tokyo, bythefnos cyn yr Ŵyl Genedlaethol. Ond mae gan y Llywodraeth a'r Cynulliad ddigon o bwerau i ymyryd ym mhob maes ac yr wyf yn un o'r bobl hynny sydd yn gofidio'n fawr ein bod wedi rhoddi llawer gormod o rym yn nwylo gwleidyddion San Steffan. Bu'n rhaid i'n tadau frwydro'n galed i gael rhyddid, dioddef carchar ac erledigaeth, a dyma ni yn barod i drosglwyddo i ddwylo Prif Weinidog a benderfynodd mis Awst 2019 er mwyn gwireddu Bregsit gau y senedd am bum wythnos. Gweithred a gafodd ei ddyfarnu'n gwbl anghyfreithlon gan y Llys Goruchaf.



*Y feirws Covid-19*

Rhydd y Bil newydd bwerau i gau ysgolion, capeli ac eglwysi, rhydweithiau trafnidiaeth, gwersylloedd gwyliau, llyfrgelloedd, siopau, lleoedd bwyta a thafarnau, clybiau pêl-droed a chwaraeon o bob math. Ac mae hyn yn ofn i arbenigwyr y gyfraith, fel y Prifardd Emyr Lewis, Pennaeth Adran y Gyfraith a Throsedd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dywedodd ef:

"Mae'n eitha eglur bod angen y math yna o bŵer, a bod angen rhywbeth mwy cadarn na sy'n boboli. Yr anhawster gyda'r math yma o ddeddf yw: beth sy'n digwydd pan mae'r argyfwng drosodd? Mae angen edrych ar bob un o'r cyfyngiadau yma oherwydd mae nhw'n gyfyngiadau ar hawliau gwaelodol – hawliau *fundamental*. Ac mae nifer ohonyn nhw yn cyfyngu ar hawliau dynol."

Mae'r cyfyngiadau yn llym eisioes a dyma nhw i ni sydd yn yr oedran peryglus rhwng 70 a 105 oed:

**1)** Hunanynysu yw'r nod, yn ein cartrefi, nid yn hawdd ond yn bosibl os mae tri mis yw'r cyfnod o'n blaen. Mae gyda ni gartrefi clyd, digon o fwyd, llyfrau di-ri, cylchgronau i'w darllen, radio i wrando a teledu i'w wylio, cyfle i gerdded yn yr ardd ac ymlacio, a ffrindiau i ffonio.

**2)** Cawn fynd allan i wneud neges sylfaenol fel postio parsel, llythyr i Taro Post yr *Angor*, mynd a'r presgriptiwn i'r feddygfa, ond dyna'r cwbl. Caiff pobl o dan 70 oed fynd i'r gwaith os yw hynny yn waith hanfodol, ond y mae pawb arall pa oedran bynnag y bo i aros adref.

**3)** Unwaith y diwrnod caiff pobl iach sydd heb glefydau parhaus fynd am dro gyda'r ci i Barc cyfagos. Cyfagos yw'r gair. Cyfle hefyd i ymarfer corff sydd o gymorth o ran fod yn heiny ac yn rhydd o ofidiau. Gallwn fynd fel gŵr a gwraig ond nid i gymdeithasu na chael paned o de gyda'n cyfeillion.

Y gobaith mawr meddai'r gwyddonwyr y bydd y cyfyngiadau hyn yn rhoi ergyd i'r feirws anweledig, cythreulig sydd yn herio byd cyfan. Gobaith arall yw fod y cyfyngiadau hyn yn rhoi stop ar unrhyw un ohonom i basio'r feirws ymlaen i'n hanwyliaid, i'n cydweithwyr a'n cyfeillion, a phobl na wyddom ddim nyd yn oed eu henwau. Y bwriad yw fod y bobl sydd wedi ei heintio yn ddrwg yn gallu cael eu trin gan y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Ond yr hyn sydd anoddaf yw fod ein ffordd wareiddiedig o fyw o ddydd i ddydd yn y gorffennol wedi dod i ben am gyfnod amhenodol. Nid oes cymdeithasu gyda neb tu allan i'r tŷ a dylid gadael neges ar stepan y drws a dylem olchi ein dwylo yn gyson, gyson. Gofalwn hefyd na wnawn ysgwyd dwylo gyda'n gilydd, gweithred bwysig iawn yn fy ngolwg i.

Y cwestiwn mawr yw sut le fydd Lerpwl, Manceinion, Penbedw, Cymru ar ôl i'r feirws ddiflannu o'r tir pan gawn fodd i'w ddifa ymhen deunaw mis? Ond am y deunaw mis nesaf bydd yn rhaid fod yn wyliadwrus. Mentraf broffwydo fel hyn:

**A)** Bydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn ddiogel ac yn derbyn digon o gyfalaf er mwyn cyflawni ei gwaith. Bu'r Llywodraethau y degawd diwethaf yn anghyfrifol yn lleihau nifer y nyrsus a'r meddygon. Y mae angen mwy o gapasiti o ran lleoli gwelyau ac felly adeilader rhagor o Ysbytai fel yr addawodd y Prif Weinidog ar fyrder. Cofier am welyau gofal dwys, a gofaler am brynu mwy o offer meddygol, a chael cyflogau teilwng i bawb sydd o fewn yr NHS. Ni ddylai neb weithio mewn Ysbyty neu Gartref Gofal gael llai o gyflog na £35,000 mewn blwyddyn. Dylai y llawfeddygon a welsom yn y gyfres o raglenni ar Ysbytai Lerpwl gael cyflog Wayne Rooney a Gareth Bale. Byddwn deilwng ohonynt.

**B)** Bydd y Wladwriaeth yn fwy pwerus nag y bu hi erioed. Gwnaeth y Llywodraeth bresennol fwy na'r hyn y bu Jeremy Corbyn yn ei bregethu am y bedair mlynedd diwethaf. Roedd yr etholwyr yn amharod i Lafur wario yr arian a glustnodwyd ganddynt yn ei maniffesto ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol diwethaf, ond mae y Canghellor wedi addo gwario cyfalaf aruthrol y misoedd nesaf hyn. Nid oes dim am ddim. Rhaid talu mwy am ddaioni a llai am ddrygioni.

**C)** Bydd crefydd gyfundrefnol yn dioddef yn enbyd. Mae cau capeli o Sul i Sul am dri mis fel y mae'r Presbyteriaid Cymreg wedi deddfu yn drychineb o'r mwyaf. Bydd pobl yn mynd allan o'r arfer o fynychu oedfa ar y Sul. Un oedfa yw'r norm ar hyn o bryd, mae gohirio oedfaon yn weithred anghyfrifol iawn. Oni welsom yn Moscow ar Nos Sadwrn, 28,2000 Eglwysi Uniongred Rwsia o dan ei sang gan fod y bobl am fod yn agos i Dduw. Bum yn gwasanaethu mewn dau arwyl o fewn wythnos i'w gilydd a sylwi fel y medrwn addasu yn hawdd os oes ewyllys. Mae ein cynulleidfaoedd ddigon bach fel y mae. Byddai'n rhaid gofalu am sebon a thyweli papur a symud y seddau pum llath o'n gilydd ond i gynulleidfa o wyth (a dyna gyfartaledd eglwysi Cymraeg y dyddiau hyn) ni fyddai'n anodd o gwbl. Yr hyn a wnaeth yr enwadau Anghydffurfiol a'r Eglwysi Anglicanaidd oedd gwrando a gweithredu agenda'r byd. Cofier fod Ffydd yn gryfach nag ofn, ac i gapeli sydd yn meddu ar gnewyllyn o bobl o dan 70 oed, dylem ganiatau iddynt addoli o dan arweiniad cenhadon

sydd o dan 70 oed. Yr Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain y mae gennym dri Gweinidog sydd yn awyddus i bregethu ar y Sul a hwythau (y tri ohonynt) o dan 60 oed! Lle mae arweinwyr ein Henaduriaeth? Gobeithio nad wyf yn taro'r hoelen ar ei phen ac y cawn weld mwy a mwy o bobl yn troi allan i oedfaon ar ôl i'r argyfwng gilio.

**CH)** Fe welwn fwy a mwy o ddefnyddio technoleg i wneud bywyd yn haws. Da oedd clywed fod ar hyn o bryd pobl wrthi yn paratoi technoleg ar gyfer helpu pobl fydd yn dioddef o'r coronafeirws. Un o'r gwroniaid a gafodd sylw y dyddiau diwethaf oedd Dr. Rhys Thomas o Llandeilo. Bu'n gweithio ar beiriant sy'n pwmpio ocsigen ychwanegol i waed dioddefwyr Covid-19. Profwyd y peiriant yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli, ac fe lwyddodd i wella'r claf ddigon fel nad oedd angen i'r person gofidus fynd i'r uned gofal dwys. Mae peiriant anadlu Dr. Rhys Thomas sy'n Uwch-Ymgynghorydd yn Ysbyty Glan Gwili, Caerfyrddin wedi ei gynllunio ar gyfer gwella symptomau cleifion cyn iddynt waethygu a gorfod mynd i'r uned gofal dwys sydd yn newyddion da. Hynny pan mae gymaint o newyddion diflas i'w glywed ar y teledu o Lundain. Yno yn y ddinas fawr nid oes digon o wlâu gofal dwys ac mae'r arbenigwyr yn stryglo'n galed yn erbyn y symbalau. Ac mae angen cynllunio er mwyn ceisio osgoi sefyllfa debyg i Lundain yng ngweddill gwledydd Prydain. Croesawn bob darganfyddiad, a diolchwn i'r doctoriaid a'r nyrsys ym mhob man sydd ar flaen y gad. Maent yn anhygoel fel y gwyddom o brofiad, yn gweithio yn ddistop, dan amodau mor galed. Haeddant ein clapio a'n geiriau caredig yn ddyddiol. Hebddynt hwy yr ydym mewn problem, ac heb weddi a myfyrdod, yr ydym yn colli'r dydd. Daliwch ati o ddydd i ddydd a gobeithio y bydd y Golygyddol hwn yn eich goleuo, cysuro a'ch gorfodi i glapio y gymeradwyaeth i'r NHS.

**Ysgrif Goffa**

# John Gwyndaf Williams

## (1932-2020)
## Ainsdale, Southport

**Ymddiddorai Gwyndaf Williams yn ei gefndir, ei deulu, yn ei gerddoriaeth, ac yn y ffydd a fu'n gynhaliaeth iddo ar hyd ei oes. Ganwyd ef mewn fferm o'r ernw Tyddyn Sion Wyn, yn ardal Talsarnau ar 13 Rhagfyr 1932 i John a Lena Williams, Ef oedd yr ail blentyn o chwech o blant, a chafodd pob un enw persain Cymraeg, Ieuan, Deilwen, Heulwen, Gareth a Bryn fel ef ei hun. Soniai am y fagwraeth hyfryd, deuluol Gymraeg a gafodd mewn capel ac ysgol. Roedd ganddo daith bell o dair milltir i Ysgol Gynradd Talsarnau, cyfanswm o chwe milltir y dydd, ymhob tywydd, glaw, eira a heulwen haf. Dangosodd yn yr ysgol gynradd gryn ddawn a llwyddodd i basio Arholiad 11+ gydag mynediad i Ysgol Ramadeg Bermo.**



**Sylweddolodd yn y blynyddoedd hynny nad oedd am ddilyn troed ei dad John a ffermio, a gadawodd yr Ysgol i ddilyn cwrs peirianeg drydanol yng Ngholeg Technegol Wrecsam. Derbyniodd gyfle i fod yn brentis gyda chwmni MANWEB oedd yng ngofal cyflenwi cartrefi a chymunedau Glannau Mersi a Gogledd Cymru gyda trydan. Dechreuodd ar ei yrfa yn Wrecsam ac yno y cyfarfu gyda June, gweithiai hithau i'r un cwmni.**

**Bu'n ofynnol iddo wneud Gwasanaeth Milwrol ac ymunodd gyda chatrawd REME. Yn ystod y cyfnod hwn y penderfynodd ef a June ymuno mewn glân briodas. Priodwyd hwy yn Wrecsam ar 28 Mehefin 1958, ond yn y cyfnod hwn cafodd ei symud i wasanaethu cyhoedd ym Machynlleth a'r cyffiniau, a byw yn y dref hynafol. Yno y ganwyd y ferch Julie ym mis Chwefror 1960 a symudwyd i bentref Ceinws. O Fachynlleth symudodd gyda chyfrifoldeb dros MANWEB yn nhref Aberystwyth a symud i fyw fel teulu i bentref Capel Bangor ar gyrion y dref. Yno y ganwyd y mab Mike ym mis Mawrth 1963. Arhoswyd yn nyffryn Rheidiol hyd ddiwedd y chwedegau pryd y dyrchafwyd ef i ganolfan MANWEB yn Lerpwl. Symudwyd i fyw i Maghull.**

**Fel y mwyafrif o Gymry alltud bu hiraeth dirdynnol arno am y Cymru y magwyd ef ynddi ac a fu fyw ynddo am 38 mlynedd. Symudodd y mwyafrif ohonom i Lannau Mersi yn ein deuddegau, ond fe ddaeth ymwared, gan iddo ddod o hyd i Gapel y Presbyteriaid Cymraeg Waterloo lle y gweinidogaethai y Parchedig R. Maurice Williams. Yn y cyfnod hwnnw y daeth o hyd i Gôr Meibion Aughton. Daeth yn hynod o weithgar o fewn y Côr. Bu am gyfnod yn Gadeirydd a chafodd bleser mawr pan ymunodd y mab gyda'r Côr. Yn y rihyrsal bob Nos Lun byddai'r ddau yn ei morio hi ac yn mwynhau y gwmniaeth, y cyngherddau a'r canu lle yr oedd yn ei elfen.**

**Gweithia'n galed yn ei alwedigaeth, oriau hir, a byth yn colli diwrnod o waith. Derbyniodd Wobr y Cwmni am ei ffyddlondeb ond yn fwy na hynny cyrhaeddodd brif nod ei broffesiwn o fod yn Brif Beiriannydd Trydan Cwmni MANWEB. Cryn anrhydedd a haeddai am ei allu, ei foneddigeiddrwydd, ei ymroad a'i holl gyraeddiadau ym myd technoleg. Ymddeolodd yn 1993 a symud i fyw i Ainsdale ger Southport, pentref hyfryd o fewn golwg y môr.**

**Ymddiddorodd yn ei deulu. Priododd Julie â Peter Joyce yn 1985 a symud i fyw i Southampton lle ganwyd chwech o blant a enwyd yn James, Jenni, Jane, Joanna, John a Jacob. Byddent yn teithio yno a'r teulu yn mwynhau ei gweld. Taid a Nana yn bwysig. Priododd y mab Mike gyda Juliet yn 1986 a ganwyd tir o blant, Louise, David a Laura, ac felly yr oedd Gwyndaf a June yn gyfoethog gyda naw o wyrion a wyresau. Erbyn hyn llonwyd ei bywydau gyda pedwar gorwyrion a wyresau, Rosie, Patrick, Finn ac Esme.**

**Dyn caredig, cariadus, cyfeillgar oedd Gwyndaf, yn cysegru ei fywyd i'w yrfa, ac yn arbennig i'w deulu. Cymro a ymffrostiai yn ei iaith a'i ganu a'i grefydd a daliodd yn aelod hyd y diwedd yng nghapel Bethania. Trwythwyd ef yn ei grefydd o'i blentyndod a bu'r ffydd honno un help iddo pan ddaeth poen a breuder y corff i'w flino. Bu farw ar Sul, 8 Mawrth yr Ysbyty Southport a bellach y mae eu briod mewn cartref gofal. Gwasanaethwyd yn ei arwyl gan ei Weinidog, yr Athro Barchedig D. Ben Rees ar bnawn Gwener, 20 Mawrth yn Amlosgfa Burscough a hynny mewn amgylchiadau anodd y feirws sydd yn ein hamgylchynu. Diolchwn am ei fywyd gwerthfawr, cysga'n dawel Dad oedd geiriau y plant.**

***D. Ben Rees***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yn y creisis yr ydym ynddo diolchwn bod gennym dri sydd yn ein bugeilio, ein Gweinidog, Dr. D. Ben Rees, ei gynorthwy-ydd Parch Robert Parry a'n blaenor John P. Lyons. Ein Gweinidog oedd yr unig un o'n heglwys yn arwyl Mr. Gwyndaf Williams a gwn ei fod ef yn ddiolchgar i W. Meirion Evans am ei yrru i Amlosgfa Burscough ar fore Gwener, 20 Mawrth i arwyl ein diweddar annwyl aelod. Cydymdeimlwn fel eglwys gyda'i briod, Mrs June Williams sydd mewn Cartref Gofal, ni chaniatwyd iddi hi ddod i arwyl ei phriod, a hwythau wedi bod yn briod am 62 o flynyddoedd. Ni all rywun ond gofidio ein bod yn byw o dan reolau llym, ond angenrheidiol, er mwyn ceisio cael y llaw drechaf ar yr afiechyd blin a pheryglus. Cadwch yn ddiogel yn eich cartrefi yw'r neges a glywn o ddydd i ddydd. Edrychwn ymlaen i dderbyn gobaith y Pasg gan y Parchedig Robert Parry gan mai ef fydd ar Radio Cymru ar fore Sul, 12 Ebrill. Ef oedd yr olaf i wasanaethu gennym ar Sul, 15 Mawrth pan ddaeth ei deulu annwyl gydag ef. Oedfa arall i'w chofio a diolch iddynt am ddod o Goed-llai atom i Waterloo.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

'Rydym yn falch iawn o glywed fod y Parchedig Robert Parry yn gwella yn foddhaol ar ôl ei lawdriniaeth ac yn gallu ailgydio â'i waith.

Ar Mawrth y cyntaf cynhaliwyd Gwasanaeth Gwŷl Ddewi yng ngofal Cymdeithas Cymry Birkenhead gyda'r Parchedig Gwynne Parry yn pregethu.

Ar yr ail Sul cawsom gwmni'r Parchg. Gerallt Lloyd Evans ar ei ymweliad flynyddol. Da oedd cael y cyfle i'w groesawu a gwrando ar ei bregeth.

Gan nad oedd y Parchedig Eric Jones, Bangor, yn dod atom ar Fawrth 15ed, daeth ein cyfaill, Y Parchedig Victor Edwards i lenwi bwlch a diolchwn iddo am ei gymorth parod bob amser.

Fel ym mhob eglwys arall ni gynhaliwyd gwasanaeth yn Seion ar Mawrth 22ain oherwydd y Coronavirus ac ni fydd gwasanaethau am beth amser eto. Mae'n amser pryderus iawn i bob un ohonom. Y cwbl fedrwn ei wneud yw cario ymlaen o ddydd i ddydd mewn ffydd a gobaith y daw dyddiau gwell ymhen amser.

Dymunwn yn dda i holl ddarllenwyr *Yr Angor* a boed bendith Duw arnoch i gyd.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

**Gŵyl Ddewi – y Dathlu –** Yn ôl ein harfer ar benwythnos diwedd Chwefror dyma'r Gymdeithas yn cyfarfod i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Ar nos Wener cawsom ginio blasus yng ngwesty Grove House, Wallasey, dan lywyddiaeth Mrs Iola Edwards. Mae'r staff bellach yn ein hadnabod yn dda a phob amser yn groesawus. Wedi gwledda, clywsom araith fer gan Iola am hanes Dewi, a'i effaith ar ein crefydd a'n hiaith. Yna cawsom adloniant gan Gwynfor, a'i ffrindiau o Dyffryn Clwyd gyda straeon ffraeth a doniol gan Gwynfor, caneuon traddodiadol gan John, sy'n ganwr o fri, gyda chyfeiliant Arwyn. Mae'r tri, gydag eraill, yn brysur iawn yn ardal Rhuthun a Rhewl ac mae galw mawr amdanynt. Maent wedi codi cannoedd o bunoedd at amryw o achosion da, yn cynnwys Ysbyty Broad Green a Thŷ Robert Owen yn nhir yr ysbyty. Cafodd John driniaeth garw yno ychydig amser yn ôl.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Mair Rees Jones, ein llywydd anrhydeddus gan gyfeirio at ein gwestai, ein hysgrifennydd Iola, a drefnodd yn cyfan, at bawb am gefnogaeth, ac i'r gwesty am eu gofal ohonom.

Ar bnawn Sul, Mawrth 1af dyma ni'n cyfarfod yn Seion am ein gwasanaeth Gŵyl Ddewi o dan ofal y Parch Ddr Gwynne Parry, Heswall. Gwnaed y darlleniadau gan Mr Goronwy Humphreys - o lyfr Esecial, pennod 37, a Iola - o efengyl Ioan, pennod 11. Codwyd y testun o eiriau'r Iesu wedi iddo godi Lasarus, "Datodwch ei rhwymau a gadewch iddo fynd", a'r darlun o'r esgyrn sychion yn dod yn fyw yn "fyddin gref iawn". Ym marn Dr Parry, mae eglwysi'n gwlad yn ein dyddiau ni yn debyg i gyflwr Israel; fel yr esgyrn sychion heb anadl na bywyd ynddynt, a bod angen deffroad ysbrydol arnom. Ofnai fod Cristnogaeth wedi ei ddibrisio a'i anwybyddu yn arw ym Mhryain, a fod ein heglwysi yn tueddu i dderbyn y cyfan yn wylaidd a difater yn hytrach na chodi ei lleisiau a chyhoeddi'r Crist atgyfodedig. Rhaid inni rhoi heibio gwisg y bedd, datod y rhwymau, a chodi'n lleisiau yn erbyn Cristnogaeth difater ac esmwyth. Rydym yn or-barod i gadw'r ddysgl yn wastad a pheidio tramgwyddo yn erbyn neb. Rydym rhy barod i fynd gyda'r lli yn hytrach na chodi llais dros Grist.

Gwelwn byth mo'r eglwysi yn tyfu heb aeddfedrwydd ysbrydol a thyfiant yn ein ffydd bersonol. Dyma her Dewi, i ni yn y ganrif hon, i ni dyfu mewn gras, a theimlo'r "Haleliwia yn ein heneidiau ni." Rhoddodd Dr. Parry i ni bregeth rymus a llawn sialens, a da oedd bod yn yr addoliad. Llywydd yr oedfa oedd Mrs Iola Edwards. Terry O'Neill oedd yr organydd a gwnaed casgliad at waith y Gymdeithas.

***Dewrder y Cymro o Drelawnyd –*** Mae enw Phylip Hughes, Trelawnyd, yn gyfarwydd iawn i ni'r Cymry drwy ei waith gydag S4C a'i yrfa fel tenor o fri yn gysylltiedig â'r Opera Genedlaethol, cantorion y BBC yng Nghymru ac ym Manceinion. Cysylltiad personol hyfryd oedd clywed gan ein llywydd ar y noson, Mrs Menna Kearney, am ei amser fel athro yn Nhywyn, ac iddo ef a Menna fod yn organyddion yng nghapel Bethesda, Tywyn. Mae Phillip hefyd yn organydd o fri at yn weithgar yng Nghadeirlan



***Phylip Hughes gyda rhai o werysllwyr Y Jyngl, Calais***

*(Llun Golwg360)*

Llanelwy. Gwyddom am ei amryw dalentau, ond ar Mawrth 9fed yn Seion, clywsom am ei ymroddiad yn gwirfoddoli gyda ffoaduriaid o bob rhan o'r byd. Geiriau a'i ysbrydolodd ac a gymerodd fel ei testun sgwrs yw "Un wlad yw'r byd, a dynoliaeth yw ei ddinasyddion" o eiriau Eifion Wyn.

Dechreuodd ei waith gydag "Asylum Link Merseyside", yn dysgu Saesneg i bobl ifanc o Iran, Syria ac Eritrea, a'u helpu i ddeall ein gwlad a'n harferion. Clywsom engreifftiau brawychus am eu profiadau wrth ffoi gormes, am eu teithiau, peryglus a'r anhawsterau dybryd gan swyddogion ymfudiad. Wedi pedair blynedd gyda'r mudiad, ac wedi ymddeol o'i waith llawn amser aeth Philip i'r "Jyngl" i ymuno â'r elusen "Care for Calais". Gwelsom lawer o luniau o'r gwersyll a godwyd yno i lochesu cannoedd o ffoaduriad. Gyda chymorth y gwirfoddolwyr, ac wrth weithio gyda'i gilydd, codasant gartrefi syml, ysgol, ysbyty, eglwys, a hyd yn oed, gerddi.

Er yr amgychiadau a'r tywydd gaeafol, gwelsom nhw yn creu cymdeithas o ryw fath. Er inni glywed am y gwaith a wnaed yno, 'roedd yn agoriad llygad i gael hanes gan un a dreuliodd rai misoedd ymhlith y dirmygedig a'r anghofiedig. Rhaid edmygu eu dewrder a'u hunan-aberth. Er i lywodraeth Ffrainc chwalu'r gwersyll, mae cannoedd yn dal i ymgynnull yno a cheisio croesi'r culfor i Gaint. Mae'r gwirfoddolwyr ar gael ac yn parhau i'w cefnogi. Diolch amdanynt, meddai ni ym Mhenbedw.

Diolchodd Menna i Phillip am noson arbennig, addysgiadol a meddylgar. Beryl a Glenys oedd yn gyfrifol am te, a Terry oedd ein cyfeilydd.

Gyda chalon siomedig, rhaid inni gau cyfarfodydd ein Cymdeithas am weddill o'r tymor, er diogelu iechyd ein aelodau a'n siaradwyr.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

A ninnau yn cael bendithion fyrdd ar y Sul a noson waith bu'n rhaid bodloni i weithred yr enwad o beidio a chynnal cyfarfodydd yn ein hadeilad o ganol mis Mawrth. Cyfarfu'r Blaenoriaid ar 2 Mawrth a'r Sul canlynol croesawyd un o bregethwyr amlycaf yr enwad, y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, ac yr oedd ar ei orau. Y nos Lun, 9 Mawrth arweiniodd y Gweinidog, Dr. D. Ben Rees ni mewn trafodaeth ar y coronafeirws. Rhoddodd ddarlun a digon o ffeithiau o'r ffliw fawr 1918 pan fu farw 50 miliwn o bobl. Y noson ddilynol cyflwynodd Dr. D. Ben Rees ddarlith gofiadwy ar Briodas Jennie Lee a Aneurin Bevan. Darlith hynod o ddifyr, a diolchodd W. Meirion Evans a Roderick Owen iddo am arlwy mor faethlon. Yn absenoleb y Parchedig Eric Jones, Bangor, llenwyd y gwagle gan ein Gweinidog, Dr. D. Ben Rees a chawsom bregeth gwbl amserol ar y coronafierws, gan ein ysgogi i ymddiried yn Nuw y noddfa ynghanol y storm. Dyna'r cyfarfod olaf a gawsom. Pa bryd y cawn agor? Tri mis yw'r ddedfryd ar hyn o bryd, felly gobeithio Sul 7 Mehefin pan y caiff Dr. Rees weinyddu y Cymun Sanctaidd. Amser a ddengys ond dyna'r nod mi obeithiwn.



***Aneurin Bevan a Jennie Lee yn arwyddo y gofrestr briodas***

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar nos Sadwrn, Chwefror 29ain, bu Cymdeithas Cymry Lerpwl ar y cyd gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel yn ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff Woolton. Y gŵr gwadd oedd Elfyn Llwyd a chawsom ein 'hannog ganddo i edrych yn ôl i'r gorffennol ac ymlaen i'r dyfodol ac i gefnogi yr iaith Gymraeg pob amser. Daeth ei wraig Eleri Llwyd atom hefyd a chawsom ddwy item gerddorol ganddi. Roedd pawb wedi mwynhau y bwyd ardderchog. Talwyd y diolchiadau i bawb gan Roderick Owen gyda diolch arbenning i Mrs. Gwenfyl Bain a Mrs. Lilian Coulthard a oedd yn gyfrifol am y trefniadau.

Ar Fawrth 10fed cafodd y gymdeithas gwmni y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a fu yn sôn wrthym am y briodas gythryblus a fu rhwng dau wleidydd nodedig sef Aneurin Bevan a Jennie Lee. Roedd y ddau yn blant i lowyr – Aneurin Bevan yn un o ddeg o blant ond dau wedi marw yn ifanc. Wedi gadael yr ysgol yn 11 oed aeth i weithio i bwll glo fel ei dad. Roedd Jennie yn un o ddau o blant ac wedi gadael yr ysgol cafodd addysg yn Mhrifysgol Caeredin. Cafodd Aneurin ei ethol yn aelod seneddol i'r Blaid Lafur yng Nghlyn Ebwy yn 1929 a'r un flwyddynn enillodd Jennie is-etholiad North Lanark a'r Etholiad Cyffredinol dros y Blaid Lafur Annibynol. Cariad pennaf Jennie oedd gŵr priod a oedd yn aelod seneddol sef Frank Wise. Bu ef farw yn sydyn o drawiad ar y galon yn 1933 ac wedi hyn gofynnodd Aneurin Bevan iddi ei briodi pan oeddynt yn ymweld a'r Café Royal yn Llundain! Bu'r briodas ar Hydref 25, 1934 yn swyddfa gofrestru Holborn. Roedd llawer o newyddiadurwyr yn disgwyl y tu allan i'r Swyddfa ac yn sylwi nad oedd Jennie ddim yn gwisgo het, menyg na modrwy briodas a'i bod wedi gwrthod newid ei



***Social Distancing –***
***Mansion House, Parc Calderstones – dau gwpl yn bell oddiwrth ei gilydd***



***Eleri Llwyd yn diddanu yn Nghlwb Golff Woolton***

chyfenw. Nid oedd teulu Aneurin yn hoff ohoni pan oedd yn ymweld â nhw yn Nhredegar. Roedd Aneurin a Jennie y cwpl mwyaf adnabyddus yng ngwleidyddiaeth y wlad ar y pryd. Roedd pobl yn eu dilyn bob amser. Nid oedd ganddynt ddim preifatrwydd ac ‘roeddynt yn  methu dygymod â’r holl gyhoeddusrwydd. Roedd Aneurin yn hoff o gerdded o amgylch Tredegar a mynd i dafarn leol anhysbell. Dim syndod iddynt symud tŷ amryw o weithiau  Buont yn byw mewn bwthyn Lane End Cottage yn ymyl Reading. Wedyn yn 1945, pan cafodd Aneurin ei wneud yn Weinidog dros dair adran yn y llywodraeth, bu iddynt symud i Sloane Square yn Llundain ac yn 1954 prynu fferm 52 erw yn Chesham, Swydd Buckingham. Roedd Aneurin Bevan yn weinidog nodedig yn ei yrfa, yn arbennig yn sefydlu y Gwasanaeth Iechyd. Bu farw ar 5ed o Orffennaf 1960 wedi gwaeledd o 7 mis . Bu Jennie Lee yn gyfrifol am sefydlu y Brifysgol Agored yn y chwedegau. Diolch i’r Parch. Ddr. D. Ben Rees am ei ddisgrifiad cynhwysfawr o’r briodas stormus ond caredig yma rhwng dau wleidydd oedd yn gyfrifol am gyfoethogi bywyd Prydain. Ond yn ngeiriau Arianwen, chwaer Aneurin, roedd Jennie yn ‘terrible woman’ ac nid oedd ganddi owns o gariad tuag ati.

Oherwydd y feirws COVID 19 ni fu cyfarfod arall o’r Gymdeithas ym mis Mawrth. Gobeithio eich bod yn cadw yn iach, ac y cawn gyfarfod a’n gilydd eto yn fuan.

## Cyfarchion Manceinion

Yn gyntaf oll yn y dyddiau eithriadol hyn, tra bod y Covid 19 yn ein caethiwo, hoffem anfon ein cariad a’n dymuniadau gorau at bawb o ddarllenwyr *yr Angor*, ac yng nghyfnod y Grawys a’r Pasg dyfynnaf weddi fy nhaid, y Parch Humphrey Jones Davies:

*Erglyw ein cri a gwêl ein croes,*
*Yn ingol loes y gwledydd,*
*A chyfod fyd o farw’n fyw*
*O Arglwydd Dduw’r Achubydd.*

## Newyddion Manceinion

Ar nos Sadwrn, Chwefror 29ain, ein pleser oedd cael dathlu Gŵyl Ddewi yn y Coleg Cerdd yng nghwmni Côr Meibion y Brythoniaid dan arweiniad John Eifion, Côr Seiriol a’u harweinydd Gwennant Pyrs, Ralph Thomas Williams, yr unawdydd o’r Coleg Cerdd, a Dylan Cernyw ar y delyn. Yn anffodus, ni allodd Annette Bryn Parri (hanner arall Piantel) fod yn bresennol oherwydd gwaeledd Gwyn ei gŵr. Noson i’w chofio yn wir – y neuadd yn gyfforddus lawn a’r awyrgylch yn gynnes a chyfeillgar. Ond, ysywaeth, dyma’r cyngerdd olaf. Ers



***Eflyn, Arwel ac Eleri***



***Mwynhau’r cwis ym Manceinion, Mrs Irene Mathias, Dr W. R. Roberts a Mrs Glenys Roberts, Mrs Glenys Davies yn y rhes blaen; Mrs Val Smith a’i gŵr Mike ac eraill yn yr ail res.***

1976, bron yn ddi-dor, 'rydym wedi mwynhau dathliad ein nawddsant yn y Coleg Cerdd ac y mae'n diolch twymgalon yn mynd i Elwyn sydd wedi bod wrth y llyw o'r dechrau yn gweithio yn ddiwyd i sicrhau fod popeth yn rhedeg yn rhwydd. Fe erys y dathliadau yn ein cof am amser maith.

Ar y Dydd Sul, cyntaf o Fawrth roedd nifer dda ohonom yn y capel i groesawu'r Parch Nesta Davies i roi pregeth Gŵyl Ddewi – ac fel arfer roedd ei gwasanaeth yn bwrpasol ac yn afaelgar ar y pwnc o'r Sant ei hun a chawsom luniau gwych o'r hanes, mewn du a gwyn, '*silhouette*' celf ar y sgrin i arwain ein meddyliau unwaith eto at egwyddorion pwysig y sant sef gwneud y pethau bychain a dal ar y ffydd. Diolch yn fawr i Nesta am ei ffyddlondeb i ni ym Manceinion dros y blynyddoedd ac mae ei chyfraniad wastad yn werthchweil.

Y nos Sadwrn ganlynol, yn Noddfa Oaker Avenue y bu'r dathlu. Swper *hot-pot* blasus gyda theisen afal a chaws a bisgedi i ddilyn. Yn wahanol i'r arfer eleni, cafodd y bwyd ei baratoi gan gwmni oddi allan er mwyn i ferched yr Ofalaeth gael ymlacio tipyn. Y gŵr gwadd oedd Mr Arwel Evans o Irby, Cilgwri – Arwel yn fab i'r diweddar Mr Clifford Evans a fu'n flaenor diwyd yng nghapeli Cheetham a Noddfa Oaker Avenue, ac yn gyfaill gwerthfawr i bawb ohonom.

Ar ôl bwyta daeth yr anerchiad, pan gawsom gip-olwg ar fagwraeth Arwel yn y ddinas fawr gyda'i rieni a'i chwaer Nia ac roedd y cofio yn llawn hiwmor ac anwyldeb. Dechreuodd ei sgwrs gyda geiriau Waldo Williams:

*Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren*
*Un funud fach cyn delo'r hwyr i'w hynt*
*I gofio am y pethau anghofiedig*
*Ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt*.

Roedd rhieni Arwel yn Gymry i'r carn - Mair o Ddyffryn Ceiriog, Cliff o Gaernarfon – ac wedi cyfarfod yng nghlwb y Ddraig Goch ym Manceinion yn y pumdegau a phriodi yn 1957 yn Glyn Ceiriog. Roedd y ddau yn gweithio ym Manceinion ond arferai'r teulu fynd yn ôl i Gymru yn aml am wyliau gwych a thyfodd Arwel i fyny gyda chariad a balchder tuag at ei wlad. Dyma'r Balchder a welsom wrth iddo ganu 'Nant y mynydd' gan Ceiriog, bardd a Chymro oedd yn gweithio ym Manceinion am gyfnod, a'i gân yn adlewyrchu gwychder byd natur yng Nghymru. Roedd rhai yn canu gydag Arwel ac roedd yr awyrgylch yn Noddfa yn gynnes iawn.

Symudodd ei rieni i dŷ newydd yn Bury yn 1960 lle y ganwyd Arwel â'i fam yn siarad Cymraeg drwy'r amser. Eglurodd wrthym am fan ei eni yn Bury a enwyd 'Jericho' ac roedd yr enw beiblaidd hwn yn achosi balchder yn ei Daid a oedd yn weinidog yn Soar, Glyn Ceiriog. Arwel oedd un o'r plant olaf i gael ei fedyddio yng nghapel Cymraeg Heywood Street, gan y gweinidog ar y pryd, y Parch William Morris, a oedd yn gyfaill agos i Hedd Wyn. Cafodd Arwel broblem fach yn yr ysgol gynradd gan fod yr athro yn dweud y drefn am ei fod yn meddwl fod Arwel gyda'r un enw â'r afon leol, yr Irwell, a'i fod wedi gwneud camgymeriad yn y sillafu!

Soniodd Arwel hefyd am nifer o bobl oedd yn gyfeillion i'w rieni ac sydd yn gyfarwydd i ffyddloniaid Manceinion hyd heddiw. Cofiai fod y teulu yn gorfod cymryd dau fws i gyrraedd y capel yn Cheetham Hill lle roedd aelodau Heywood Street wedi symud ar ôl i'r capel gau. Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r gweinidog y Parch R. J. Evans a dyma beth ddywedodd Arwel amdano: 'R.J. yw un o'm harwyr personol, dyn bonheddig yng ngwir ystyr y gair, bob amser yn addfwyn, digrif a chlyfar. Roedd yn gristion ymarferol iawn gan ddod â'i gysur i'w braidd'. Aeth ymlaen i ddweud am hanes difyr ei fywyd gan iddo ddal ar ei gymreictod yn y Coleg yng Nghaergrawnt a hyd heddiw. Ar ôl yr anerchiad rhoddodd y gŵr gwadd y llwnc destun i Dewi Sant. Aeth pawb ati i glirio'r byrddau ac yn y cyfamser roedd 'cwis' i ni ei wneud, wedi'i baratoi gan Iestyn Roberts.

Ymlaen wedyn i fwynhau adloniant o ganu ac adrodd dan arweiniad Elwyn Evans. Noson hapus a llwyddiannus iawn ymhob ystyr a phawb wedi'i mwynhau yn ddiwahân.

***Anne S. Hunt***
***ac Eleri Edwards***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905

# HANES ARDDERCHOG YN DOD I BEN

***Deugain Cyngerdd a mwy!***




***Ralph Thomas Williams a Dylan Cernyw***

Mae cysylltiad Cymdeithas Cymry Manceinion â'r Coleg Cerdd yn y ddinas yn mynd yn ôl dros ddeugain mlynedd i saithdegau y ganrif ddiwethaf, ond mae y traddodiad o gael cyngerdd i ddathlu Gwyl Ddewi yn mynd yn ôl ymhellach. Yn y llyfr cofnodion hynaf sydd yn dal yn ein meddiant darllenwn fod Pwyllgor Gwyl Ddewi gydag aelodau o Gymdeithas Cymru Manceinion ac o Gymdeithas y Ddraig Goch wedi cyfarfod ar 25ain Medi 1962 i drefnu cyngerdd yn yr Houldsworth Hall (ar Deansgate, ynghanol y ddinas) ar gyfer Gwyl Ddewi 1963. Estynwyd gwahoddiad i Gôr y Rhos ddod i ganu ac i'r Dr Glyn Tegai Hughes fod yn Gadeirydd y noson. Un anfantais o ddefnyddio yr Houldsworth Hall:- 'doedd dim piano yno ac yr oedd rhaid llogi un a'i chludo i'r llwyfan. Costiodd hyn £30 ym 1975 pan ddaeth Côr Meibion Caernarfon (Ferodo) atom ar y 1af o Fawrth i'r cyngerdd olaf yn yr Houldsworth Hall.

Yr oedd dau goleg cerdd yn bodoli ym Manceinion ers blynyddoedd lawer – y *Northern School of Music* a'r *Royal Manchester College of Music* – ond ym 1972 fe unwyd y ddau i greu y *Royal Northern College of Music*, neu'r RNCM fel y cyfeiriwn ato o hyn ymlaen. Crewyd adeilad newydd ar ei cyfer a agorodd ym 1973 ac erbyn heddiw mae yn gartref i bron i naw cant o efrydwyr o chwe deg gwahanol wlad. Ac yn yr adeilad newydd hwn yr oedd neuadd ar gyfer cyngherddau gyda tua 450 o seddau. Gwell fyth – 'doedd dim prinder piano!

Wedi cael golwg ar y neuadd a'i holl gyfleusterau penderfynwyd symud ein cyngerdd i gartref newydd, er nad oedd y lleoliad mor ganolog. Ac felly ar yr 28ain o Chwefror, 1976, daethom at ein gilydd am y tro cyntaf yn yr RNCM yng nghwmni Cantorion Gwalia, arweinydd Rhys Jones, a Marian Roberts, Brynsiencyn, yn unawdydd. Noson lwyddiannus, y gynulleidfa yn amlwg o blaid y symudiad i'r neuadd newydd, ac yno y buom yn cyfarfod yn flynyddol - bron yn ddi- dor – am dros ddeugain mlynedd. Aeth y cyngerdd ymlaen o nerth i nerth, a mor boblogaidd fel bod y tocynnau yn gwerthu allan yn fuan.



***Elwyn yn annerch y gynulleidfa yn y cyngerdd***

Yr oedd elw'r cyngerdd yn fodd i ni sefydlu gwobr flynyddol i gantorion ifanc yn y Coleg o drâs Cymreig ac estyn gwahoddiad iddynt gymeryd rhan. Yr oedd hyn yn ein galluogi i gyfrannu o dro i dro at fudiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, ambell i apêl arbennig – a hyd yn oed i'r Angor!

Ond ar ôl pob llanw fe ddaw trai, ac felly yn hanes ein cynulleidfa ni. Dros y blynyddoedd diwethaf – am amryw o resymau – mae nifer ein cefnogwyr selog wedi lleihau, ac fel y mae'r costau wedi cynyddu daeth amser i wneud y penderfyniad anodd i ddirwyn yr hanes i ben. Ond nid heb gyngerdd ardderchog i orffen – a dyna gawsom eleni. Côr Meibion y Brythoniaid o dan arweiniad eu harweinydd arbennig John Eifion, Côr Seiriol o dan ofal Gwennant Pyrs, a Dylan Cernyw ar y delyn, heb anghofio Ralph Thomas Williams o'r Coleg Cerdd, enillydd ein Gwobr Ganu yn 2019. Profiad gwych oedd cael clywed y ddau gôr gyda'u gilydd fel Côr Llechen Lân yn cloi y noson drwy ganu *Hafan Gobaith* a John Eifion ei hun yn unawdydd. Pa bryd tybed y gwelir eto faner y ddraig goch yn addurno y neuadd ac y clywir yr Anthem Genedlaethol yn codi'r to?

Mae wedi bod yn fraint anhygoel i ni fel Cymdeithas gael bod yn gyfrwng i ddenu i Fanceinion rai o gorau ardderchog Gogledd Cymru ac i gael y cyfle i wrando ar unawdwyr ifanc dawnus ar ddechrau eu gyrfa proffesiynol. Mae'n diolch yn fawr i awdurdodau y Coleg am gadw y neuadd yn rhydd i ni bob blwyddyn ar ddyddiad oedd yn agos at y cyntaf o Fawrth, ac i staff y Coleg am eu croeso cynnes bob amser.



***Côr Llechen Lân hefo John Eifion, Gwennant Pyrs yn arwain a Dylan Cernyw ar y delyn.***

Mae'n dweud llawer nad oes yr un côr wedi gwrthod y cynnig o gael ymddangos yn yr RNCM. Byddwn yn drist o golli y cysylltiad, nid cymaint gyda'r adeilad, ond gyda'r cyfeillion sydd yn gweithio yno ac wedi gwneud ein holl ymweliadau mor ddidrafferth a phleserus.

***Elwyn Evans***

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

*YSGRIF GOFFA*

# David Wynne Evans

## *(1963-2020), Kingsley ger Frodsham*

Brawychwyd y gymuned Gymraeg ar bnawn dydd Iau, 12 Mawrth o glywed am farwolaeth disyfyd David Evans yn ei gartref yn Kingsley, ger Frodsham ag yntau oedd yn 55 mlwydd oed. Ganwyd ef ar 6 Awst 1963 yn Lerpwl i Mavis a William Evans, Dulas, Oakfield, cartref gwerinol Cymreig, ei fam wedi cael ei geni yn Lerpwl a'i dad yn dod yn wreiddiol o Llangwyryfon yng Ngheredigion. Cafodd fagwraeth gariadus, ofalus, yr unig blentyn, a'i daid a'i nain, R. D. Lewis a Beth Lewis yn ei warchod hefyd yn y blynyddoedd pwysig hynny i bawb ohonom. Capel Bethlehem, Douglas Road oedd yr ail gartref i'r teulu a hynny yn ystod gweinidogaeth y Parchedig G. Tudor Owen.

Yr oedd ei ysgol a'i gapel yn ymyl a rhyw chwarter milltir i ffwrdd cael pêl-droed Lerpwl a ddaeth yn bwysig ryfeddol iddo. Bu yn meddu ar docyn blynyddol am o leiaf 30 mlynedd. Addysgwyd ef yn lleol ac ar ôl hynny yn Ysgol Gyfun Anfield a'i alluogodd i gario ymlaen mewn galwedigaeth ddiogel o ran gwaith a gorchwyl.

Yng nghapel Douglas Road gwelais i ef gyntaf a hynny yng ngwanwyn 1969 pan oedd David wedi cychwyn yn yr Ysgol Gynradd. Cofiaf yn dda cael llythyr gan Ysgrifennydd yr Eglwys yn fy atgoffa o'm cyhoeddiad ac yn tanlinellu fod angen i mi siarad â'r plant. Euthum yno gan ddisgwyl llond sedd o blant, ond dim ond un oedd yno a hwnnw yn dymuno pe bae'r ddaear yn ei lyncu! Dyna fel y bu bob tro y bum yn gwasanaethu yn Douglas Road, David yn unig yn cadw'r traddodiad yn fyw ond yn gwrthwynebu yr iau hwnnw arno. Pan ddaeth datgorffori i hanes Douglas Road symudodd teulu David i eglwys Bethel, Heathfield Road lle y cafodd llond gwlad o ffrindiau newydd. Mae llun da yn y gyfrol *Codi Stêm a Hwyl yn Lerpwl* (Cyhoeddiadau Modern, 2008) ar dudalen 132 Pobl Ieuanc Bethel, rhes gefn: Dylan Williams, Roy Williams, Dafydd Rees, Alun Jones, Ian V. Jones, David Evans, Gareth Roberts, Sonia Jones. Rhes flaen: Iwan Williams, Gwenan Haf Owen, Mair H. Parry, Delyth Rogos, Eirian H. Parry, Ceri Rogos a Helen Hughes Jones. Roedd David yn ei nefoedd ac yn Heathfield Road ceid Ysgol Sul lewyrchus gydag athrawon arbennig iawn fel Louie Jones, Nan H. Parry, Enid Hughes Jones, Ceri Roberts. Roedd yr adeiladau yn fwrlwm o weithgarwch, gweithred dda oedd imi sefydlu Cylch yr Ifanc ar ôl y Gorlan ar Nos Wener gydag ymroddiad Dr. Idris Owen, Mri Alun Roberts, Roderick Owen, W. Meirion Evans a llu o wirfoddolwyr eraill. Llwyddwyd i wneud noson Wener yn noson y plant a'r ifanc. Cynhaliwyd y Gorlan o 6.30 hyd 7.30 ac yn dilyn Cylch yr Ifanc hyd naw o'r gloch a dyna fu'r patrwm am flynyddoedd lawer. Roedd angen dodrefn arnom a chofiaf imi gael y syniad o gasglu stampiau Green Shield er mwyn prynu bwrdd *table tennis*. Llwyddwyd a chawsom aml i sgarmes. Cofiaf yn dda David yn wynebu Gareth Roberts ar y bwrdd tenis a doedd dim diwedd ar y ddau bencampwr.



Yn Nydd y Cymry yn Jericho Lane, Otterspool deuai David i'w deyrnas fel rhedwr chwim yn nhraddodiad Guto Nyth Brân. Yr oedd wrth ei fodd. Gwnaeth ffrindiau yr adeg honno a arhosodd gydag ef weddill ei oes. Dau yn arbennig. Yn gyntaf Richard Hughes Jones oedd rai blynyddoedd yn hynach, rhy hen i'r Gorlan ond yn atebol i Gylch yr Ifanc. Daeth y ddau yn gefnogwyr brwd i Lerpwl. Byddai Richard yn gadael ei gar yn Dulas a'r ddau yn cerdded ac yn dod yn ôl i luniaeth yn barod iddynt. Felly y bu hi hyd nes i dad David fynd i Garth Rowan a byddid yn cyfarfod yno gyda Enid Hughes Jones yn cadw cwmni ar y pnawn Sadwrn wrth gadair yr annwyl William Evans na fedrai dorri gair. Y Sadwrn cyn yr alwad bu'r ddau yn gwylio Lerpwl yn erbyn West Ham. Edrychai ymnlaen i'r dathlu yn hanes Clwb Lerpwl ond mae'r coronafeirws wedi dod i beryglu pob peth.

Mwynhaodd David gyfeillgarwch yr Athro Gareth Roberts o Brifysgol Warwick a'i deulu. Am flynyddoedd bu'r ddau deulu yn cael gwyliau gyda'i gilydd pan oedd y plant ieuengaf a deuai Gareth i weld ef yn gyson.

Yn ei yrfa cafodd ei addysg ym Mhrifysgol Morganwg yn Nhrefforest a derbyn cyfarwyddyd a'r addysg i'w alluogi i fod yn Syrfewr Siartredig. Daeth swydd iddo yn swyddfa yr Asiant, Valuation Office Agency yn Lerpwl. Roedd yn atebol iawn i'r dasg a'r gwaith ond yn edrych ymlaen yn arw am gyfle i ymddeol. A daeth y cyfle iddo yn 2019 a'i draed yn gwbl rhydd. Hiraethai yn gyson am awyrgylch y gweithle, y tynnu coes a'r cyfeillgarwch. Cafodd ffrind da yn Graham Dodd a mwynhai aml i ddigwyddiad yn ei gwmni. Roedd ar delerau da ag eraill fel Sarah a Katy.

Bu David yn hynod o ffodus yn ei fywyd priodasol. Cyfarfu ag Anita Hale a ddeuai o Great Sutton, De Cilgwri mewn priodas yn 1996. Eisteddai y ddau ar yr un bwrdd yn yr arlwy ac o'r cyfarfyddiad hwnnw tyfodd y garwriaeth. Priodwyd hwy ar 8 Ionawr, 1999 ac yn 2001 ganwyd mab, William a ddaeth ag hapusrwydd mawr i'r rheini. Roedd William yn golygu cymaint iddo, ac mae y mab o ran wyneb yn hollol o'r un ffurfiad a'i dad. Ef oedd cannwyll ei lygad, a phan ddangosodd William allu mwy na'r cyffredin mewn chwarae pêl-droed ni fu neb yn fwy cefnogol. Gyrrai ef William i'r Academi yn Wrecsam am rai blynyddoedd. Bellach trodd William ar drothwy mynychu Prifysgol yn reffari addawol iawn a byddai'r tad yn mynd i'w wylio wrth y dasg. Meddai William ar bersonoliaeth dawel a doeth a bydd yn gefn mawr i'w fam fel y bu ei dad. Dioddefodd Anita cryn lawer o salwch, yn dioddef yn helaeth, a'i golwg yn ddiffygiol. Ond roedd David fel craig yn ei chysgodi.

Ar ôl ymddeol aeth David i wirfoddoli dros ddau elusen. Yr elusen gyntaf wedi ei lleoli ar y syrgeri, yn trefnu mynd a phobl heb gar modur, am archwiliad i Ysbytai'r Cylch, i Gaer, Halton, Warrington a Lerpwl. Gan mae David oedd yr ieuengaf o'r gwirfoddolwyr byddai'n barod i fynd yn gynnar yn y bore neu ar ôl iddi dywyllu. Yr ail elusen oedd ar gyfer yr henoed, i gynorthwyo pobl i lenwi ffurflenni dyrys, cymorth i'r anghenus a byddai'n gryn giamstar ar y dasg honno. Roedd ffrwyth yr hyn a dderbyniodd ar ei aelwyd, yn y capeli, yn ei gartref wedi aeddfedu ar ei ganfed. Y ffydd Cristnogol wedi troi yn weithredodd o ddaioni.

Pa bryd bynnag y byddech yn ei weld yr oedd yn hoffus, yn llawn direidi a hiwmor llond ei galon haelionus. Etifeddodd hiwmor godidog pobl Lerpwl a'i ddatblygu. Roedd ganddo ddigon i'w ddweud a gwnai pob un yn gyfforddus yn ei gwmni. Un o fy mhlant i ydoedd yn ffrwyth fy ngweinidogaeth ac yr wyf yn ymffrostio i mi fod yn rhan o'i fywyd o'r blynyddoedd cynnar.

*D. Ben Rees*

# Gwilym Meredydd Jones
## (1920-1992)
### *gan Dr. Pat Williams, Allerton*

Un o Gymry Lerpwl mwyaf blaengar oedd Gwilym Meredydd Jones, er mai ym mhentref Glanrafon, Meirionydd, y cafodd ei eni a'i fagu. Addysgwyd ef yng Ngholeg Normal Bangor ac yn 1945 daeth yn athro i Lerpwl, gan aros yno nes ymddeol. Yn ei amser hamdden ymroddai i lenydda, gan gyfrannu i bapurau bro Cymry Lerpwl fel un o'r is-olygyddion Y Bont ac yn ddiweddarch drwy gyfrannu erthyglau i'r *Angor.*

Roedd ei gynnyrch llenyddol yn cynnwys dwy nofel a thair cyfrol o straeon byrion. Canmolodd y beirniad llenyddol D Tecwyn Lloyd ei nofel gyntaf *Dawns yr Ysgubor* (1965) gan ddweud i gyfaredd y stori a'r modd yr adroddwyd hi wedi dal arno ac yn debyg o wneud am amser hir. Ond er gwaethaf ei lwyddiant cychwynnol ni chyhoeddodd ddim arall am ddwy flynedd ar bymtheg, nes ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982 gyda'i gyfres o straeon byrion *Ochr Arall i'r Geiniog*.

Mae storïau'r gyfrol hon yn amrywiol iawn ac mae'r awdur yn dangos yr un deheurwydd wrth ymdrin â gweithgar-eddau gwerin Cymru ddechrau'r ugeinfed ganrif ac ymgyrch milwyr yn yr anialwch yn ystod yr ail ryfel byd. Fel yr awgryma'r testun, nid yw pethau bob amser fel yr ymddangosent yn arwynebol a gwelir bod cymeriad ymddangosiadol barchus yn gallu ymddwyn yn amharchus yn y dirgel, fel y prifathro rhinweddol oedd yn darllen cylchgronau aflednais a'r dyn ifanc digartref o deulu da yn gaeth i gyffuriau. Dengys hefyd ymdrechion Cymry Lerpwl i drosglwyddo'r iaith i'w plant, rhai yn derbyn yn ddigwestiwn ond eraill yn gwrthryfela, fel Caradog yn 'Cân y Caneri'. Ceir cyffyrddiad o hiwmor hefyd, pan fydd Jen Tŷ Capel yn 'Y Dyn Unig' yn cyfeirio at ddillad Jaeger fel 'dillad jaguar.'

Olynnydd teilwng i *Ochr Arall i'r Geiniog* yw *Gwerth Grôt* a gyhoeddwyd y flwyddyn ganlynol. Cyfrol o straeon byrion eto oedd hon a beirniaid mor graff â Rhiannon Davies Jones, Branwen Jarvis a D Tecwyn Lloyd yn dweud bod Gwilym Meredydd Jones yn llenor wrth reddf, a bod yna ddieithrwch a newydd-deb yn ei ysgrifennu. Portreadai ddynion yn eu hiselfannau heb fod yn feirniadaol ohonynt. Dengys y gyfrol ei adnab-yddiaeth ddofn o bobl a'i allu i'w portreadu gyda sensitifrwydd a chydymdeimlad.

Roedd yn brysur iawn yn yr wythdegau a chyhoeddwyd nofel arall o'i eiddo, *Yr Onnen Unig*. Dywed y broliant fod hon yn nofel "sy'n plethu elfennau o serch, trais a thrasiedi yn un ac yn gwau ynghyd dynged dau deulu yn gelfydd." Gwelir yma hefyd ei ddawn i bortreadu plentyn ac i ddeall y rhesymau am ei ymddygiad. Mae Aled yn fachgen anystywallt ac mae'r awdur yn dangos fod hyn yn ganlyniad i'r ffordd yr oedd wedi cael ei fagu gan dad caled a dideimlad.

Cyhoeddwyd ei gyfrol olaf o straeon byrion ar ôl ei farwolaeth. Mae'r teitl, *Chwalu'r Nyth a Straeon Eraill* yn eironig. Ni wyddai'r awdur pan gyflwynodd y gyfrol i'r wasg y byddai chwalfa ar ei aelwyd ei hun, yn sgil ei farwolaeth yntau, cyn iddi weld golau dydd. Y themâu a gyflwynir yn y gyfrol yw diflastod ac undonedd bywyd yn gyffredinol, trais a gormes yn y cartref, effaith torpriodas a diffyg dealltwriaeth rhwng dwy genhedlaeth. Ond er gwaethaf popeth, mae Gwilym Jones yn gallu gweld yr ochr ddoniol i dreialon bywyd, fel yn 'Emlyn Druan'. Pan fu farw Emlyn yn ddisymwth, tra oedd ar ei wyliau yn Bournemouth, yr oedd ei weddw yn poeni gymaint am golli ei *thermal underwear* ag oedd hi am golli ei gŵr.

Yn ei gynnyrch llenyddol i gyd gwelir ôl ei brofiad fel prifathro ac fel gwirfodd-olwr gyda'r Samariaid yn ei bortreadau gonest o'i gymeriadau a'i ddadansoddiad anfeirniadol o'u problemau.


Cysylltwch â'r

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

garthdriveben@gmail.com


*Myfyrdod*

# Y PENTECOST

Wyddoch chi, ac efallai eich bod wedi gwneud yr un peth, sef gofyn am "second chance"? Hynny yw mewn bywyd. Beth barodd imi ddweud hyn? Wel, byddaf yn onest, mae gen i wendid am ffilmiau Walt Disney!! Y ffefryn ydy "Pinnochio' ac enwedig pan mae Jimmy Cricket yn canu *"When you wish upon a star"*. Does ots pwy ydych fe gewch wneud.!! Mae breuddwydion a dymuniadau gennym i gyd onid oes? Dymunwn fod yn well cymeriad, yn fwy amyneddgar, "carwn fod fel ti dy hun" OND *"it don't work like that. My boy, no sir."* Ydych yn cofio beddargraff Robert Louis Stevenson: "Dyma'n gorwedd un ac oedd yn barod i fod yn well, ceisiodd am ychydig a methodd lawer".

Meddyliaf am y disgyblion annwyl fel roedd ganddynt obeithion ond ar y fythgofiadwy Fryn fe chwalwyd y gobeithion yn yfflon i gyd. "Disgwyl pethau gwych i ddyfod / Croes i hynny maent yn dod". Fe ddaeth y trydydd ddydd – CODODD CRIST – HALELIWIA – ac addewid Ei Dad arnynt. Sylweddolwyd y broffwydoliaeth ac fe gyflawnwyd yr addewid o dywalltiad yr Ysbryd Glân.

Cofiaf gydag anwyldeb y Parch Gwyn Erfyl a Lisa, ei briod, bu'r ddau yn agos iawn ataf pan oeddwn yn Ysgrifennydd Capel yr Annibynwyr Bethel, Caerffili ac fe ddaeth i Gwrdd Pregethu a'i destun oedd 1 Thes. Pennod 5 andod 19-21: "Na ddiffoddwch yr Ysbryd – Deliwch yr hyn sydd dda". Soniodd pan oedd gydag Annigonni ac fe gafodd hanesyn am yr artist enwog Leonardo da Vinci. Roedd Leonardo ar ganol paentio "Y Swper Olaf". Cwerylodd Leonardo yn ffyrnig gyda cyfaill ac yn y mŵd yma roedd yn paentio gwyneb Jiwdas. Pan ddaeth wedyn i baentio gwyneb yr Iesu methodd yn lân a chael beth a hoffai a wylodd a gofyn am ei gyfaill. Fe aeth i chwilio am ei gyfaill ac yn y diwedd am rai misoedd fe ffeindiodd ef. Aeth ar ei liniau ac ymbil faddeuant am y cweryl fisoedd ynghynt. Aeth yn ôl at ei waith ac fe gafodd wyneb yr Iesu'n iawn fel y dymunai ef sef llawn CARIAD, TYNERWCH A THOSTURI. Credai Gwyn Erfyl na chewch wyneb y Crist heb yr Ysbryd. Roedd y testun yn "STANDING ORDERS YR EGLWYS" sef "pethau sydd i sefyll ym mywyd y Crist ar bob pryd ym mhobman ac o dan pob amgylchiad".

Dydyn "nhw" ddim yn pregethu neges y Pentecost y dyddiau hyn. Chwardd rhai pan ddywedaf yn gydwybodol bod ein hanwyliaid sydd wedi ein gadael ni yn dal i fod ynom ni, yn ein cof ni, yn ein meddwl ni, yn ein calonnau ni ac yn preswylio ynom ni. Gyfaill, mae'r Pentecost yn ddiwedd ar Iesu Grist gyda ni ac yn ddechreuad ar Iesu Grist YNOM ni.

*Elwyn*

# COVID 19

Firws angeuol hardd yw'r 'corona'
fel pêl ping pong yn orchudd o dorcha!

Stwffia drwy ffroena' a llygad llaith
ymlaen ymlaen ar ei bydol daith

Ceuwyd yr henoed – fel cwn mewn cwt
cedwch o'r golwg, ymdopiwch yn dwt.

O dipyn i beth bydd y wlad yn cau'i lawr
â'r firws fel hyn, beth nawr Prydain Fawr?

Mwy na'r Eidal, Almaen a hefyd Sbaen
y gwledydd a'u clwydi dan glo a tsiaen?

Dim hamdden mwyach na chaeau o sbort
dim socer, na rygbi o unrhyw siort!

Mae'r awdurdodau – a bod yn deg
fel 'c'logod y domen – clochdar neu rheg!

Mae taflu arian dychrynllyd i'r gad
(llywodraeth newydd am gadw eu stad!)

Am faint pery y fadwch a'r stomp
Pa hyd bydd y firws yn dawnsio'i romp?

Ond 'rhoswch funudyn – mae eto dro
i'r rhyfel weladwy anweladwy'r fro…

Capeli…ysgolion i gyd yn cau'i lawr –
rhencian dannedd y brodyr o gornel Sêt
Fawr.

Dim arholiadau Lefel A na 'G S E'
'ond a'i mater bywyd yw ennill degree?"

Dim allor i dderbyn sacrament hedd
dwylo'n ddisinffectant o'r byd i'r bedd.

Ond, meddyliais o ddifri'r paderau fu
am Ddiwygiad arall i lenwi y Tŷ!

Onid rhan yw hyn o efengyl cariad
a chyfle'i ail gychwyn rol Atgyfodiad?

-rhoi heibio ein hunanoldebau bas
llenwi ein byw efo trugaredd a gras?

Mae un peth yn sicr ar derfyn y sioe
fydd fory ein byd ddim tebyg i ddoe!

Byw yw yr Arglwydd – er maint y trwbwl
y byd sydd o'i le gyda'i safonau dwbwl.


Mae digon ar gyfer angen bob un
ond fod pobol yn farus yn stompio'r llun..

Pam beio Duw – a rhoi arno pob bai
heb weled o'n grym ein traed o glai?

*Norman Closs, Carmel*

# Cornel y Trysorydd

## MAI 2020



Er Cof am Walter Rees Jones,
Penbedw . . . . . . . . . . . . . . . .£25.00
Parch Dr. D. Ben Rees a
Meinwen Rees, Lerpwl . . . . .£50.00
Mr Dafydd Llewelyn Rees,
Llundain . . . . . . . . . . . . . . . .£20.00
Y Barnwr Hefin a Dr. Bethan Rees
Harpenden . . . . . . . . . . . . . . .£20.00
Mrs Betty Lockyer,
Betws Bledrws . . . . . . . . . . . .£11.00
Dr. Huw Edwards, Llundain . .£20.00

**Cyfanswm £146.00**

**Roderick Owen**
**(Trysorydd)**

---


**Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi/Merseyside Welsh Heritage Society**

# *APÊL/APPEAL 2020*

prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)

We are extremely grateful for the donations received towards the History of the Liverpool Welsh which assisted us in producing a beautiful Welsh book which has been gratefully received.

**Dr. D. Ben Rees has completed an Englsh Language book on the same subject to be called *Liverpool Welsh: A Remarkable History* to be published in 2021. Unfortunately the publishers in Wales has closed down for the forseeable future due to the coronavirus. So we do not know when the book will be ready but not in 2020 as planned.**




However, this gives the Merseyside Welsh Heritage Society more time to persuade friends and generous men and women to respond with a donation towards the huge costs involved. Every donation will be gratefully received. Already we have received gifts from £500 to £50. A donation will be acknowledged in the book by inserting your name and a gift of £50 and more will ensure you a copy of a hard back volume titled ***Liverpool Welsh: A Remarkable History.*** It will be signed and presented to you at the launching of the book hoopefully in Lent 2021.

We have received already
a) List one £550; b) List two £450.
We include

## LIST THREE (1/3/2020 i 31/3/2020)


1) to Reverend Dr. D. Ben Rees from Cymdeithas Cymry Lerpwl (Liverpool Welsh Soiciety) for his lecture on Jennie Lee and Aneurin Bevan on 10 March 2020 the sum of ..........£50
2) Campbell Insurance Service Ltd, Allerton the sum of .........£50
3) Ultra Security Systems, Derby Lane, Liverpool 13 the sum of ..........£50
4) Gwynn Evans and Basia Evans, London NW9 the sum of ..........£50

**Total / Cyfanswm ..........£200**

The Appeal will be open to March 28, 2021.
***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***



***Margaret Anwyl Williams a'i theulu, y merched Sian a Rhian a'r drydedd genhedlaeth. Yn y llun mae Sian ar y chwith hefo'i mab James, a Rhian ar y dde hefo'i mab Dylan. Mae'n chwith heb eu cwmni y dyddiau yma.***




***Rhoddion o Gapel Bethel a'r gyfrol drwchus oddi wrth y Gweinidog. Y ddau lyfr yw <u>Ffylantin-tw!</u> – Teyrnged y Traddodiad i Meredydd Evans a Phyllis Kenny, a'r <u>Classical Music Lover's Companion to Orchestral Music.</u> Mae'n rhaid i mi ddweud mod i'n cael llawer o bleser wrth ddarllen y penodau a dod ar draws cerddoriaeth nad ydw i'n gyfarwydd hefo.***



***Eryl Wynne Jones yn mwynhau cerdded i barc Calderstones***

**(Lluniau: John G. Williams)**



***Partneriaeth hir am 40 mlynedd – y Gweinidog a'r organyddes***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mehefin 2020** erbyn bore Gwener, 1 Mai 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Gorffennaf 2020** – erbyn bore Llun, 1 Mehefin, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd bore Gwener, 1 Mehefin.
- **Rhifyn Awst/Medi 2020 –** erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Mercher am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/5/2020.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**